CYLCHLYTHYR
Blynyddol 2013

# Neges y Cyfarwyddwr

Ken Booth

Dyma fy neges olaf fel Cyfarwyddwr, oherwydd imi roi'r gorau i'r swydd honno ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2012–13. A minnau wedi hen ymddeol, roedd yn hen bryd i mi ildio'r awenau i rywun a fyddai mewn gwell sefyllfa i weld pethau o safbwynt mwy hirdymor.

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi mai Dr Jan Ruzicka fydd y Cyfarwyddwr newydd. Mae Jan yn ymwneud ag amryw o brosiectau DDMI ers sawl blwyddyn; mae wedi gwneud enw iddo'i hun fel ymchwiliwr ifanc rhagorol ac enynnodd ei waith diweddar ar dwf arfau niwclear (gyda'r Athro Campbell Craig) sylw a dadlau rhyngwladol.

Yn ystod fy nhair blynedd fel Cyfarwyddwr bu'n rhaid i mi roi sylw i'r heriau ariannol (sicrhau cyllid craidd ynghyd â chyllid i brosiectau penodol) sy'n nodweddu pob sefydliad o'r fath heddiw. Bu'r gefnogaeth aruthrol a gawsom yn arbennig gan Elusen Gwendoline a Margaret Davies (GMDC) a'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn amhrisiadwy i ni. Mae'n bleser gennyf felly ddiolch am y cymorth a roddwyd i DDMI gan yr Arglwydd Davies ac Ymddiriedolwyr GMDC, a chan Benaethiaid yr Adran (yr Athro Mike Foley a Dr Jenny Mathers). Heb eu cymorth hwy ni fyddai wedi bod yn bosibl i DDMI ddatblygu fel y gwnaeth.

Wrth edrych yn ôl dros y tair blynedd diwethaf, bu pedwar cynllun yn arbennig o bwysig: cychwyn Fforymau Davies, *The Davies Papers*, y Grŵp Ymchwil Gwleidyddiaeth Ryngwladol (IPRG), a gwefan 'Food and Water Security – Online Research Resource' (FWS-ore). Mae'r syniadau hyn – i wahanol raddau – yn dal i ennill tir, ond mae pob un wedi profi ei werth, a byddant yn parhau i fynd rhagddynt yn y dyfodol. Mae Fforymau Davies (gweler y *Newyddlen* hon ac un 2012) wedi ennyn trafod ymhlith nifer iach o fyfyrwyr ynghylch materion rhyngwladol cyfoes . Bu cychwyn 'Cyfres Affrica' yn gam mawr ymlaen o ran *The Davies Papers*, a rhoddir disgrifiad byr a chrynodeb o'i hamcanion yn y *Newyddlen* hon gan olygydd y Gyfres, Dr Carl Death. Cafodd yr IPRG flwyddyn gyntaf sefydlog ond llwyddiannus, ac mae detholiad diddorol o siaradwyr ar y gweill ar gyfer 2013–14, gan gynnwys o leiaf un a fydd yn ymdrin â'n hagenda ysgolheigion-ymarferwyr. Yn olaf, mae FWS-ore (mae'r manylion yn *Newyddlen* 2012) yn dal wrthi'n cael ei datblygu oherwydd cyfyngiadau ariannol, ond mae'r gynulleidfa arfaethedig wedi rhoi cymeradwyaeth ysgubol i'w huchelgeisiau. Themâu cyffredin pob un o'r pedwar cynllun yw cynnwys pobl (denu mwy o bobl i ymwneud â gweithgareddau ac ethos DDMI) a lledaenu (sicrhau bod y corff rhyngwladol ehangaf posib o bobl yn cael gwybod am yr hyn y mae DDMI (Parhau ar dud. 8)

Cafodd Sefydliad Coffa Astudiaethau Rhyngwladol David Davies ei greu ym 1951 i gofio am waith yr Arglwydd Davies, ymgyrchydd diflino dros gydweithrediad, trefniadaeth a chyfraith ryngwladol. Ers ei ddechreuad, mae'r Sefydliad hwn wedi ceisio adeiladu pontydd rhwng academyddion a llunwyr polisi, a chreu fforymau lle gall cyrff anllywodraethol, swyddogion y llywodraeth, ymchwilwyr, myfyrwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol rannu syniadau ar faterion o bwys rhyngwladol a byd-eang.

# Darlith Flynyddol – Rosemary Hollis, Prifysgol y Ddinas, Llundain



Mae'r Athro Rosemary Hollis yn ddadansoddwr blaenllaw ym maes materion y Dwyrain Canol. Ar hyn o bryd, mae'n Athro Astudiaethau Polisi'r Dwyrain Canol ac yn gyfarwyddwr Rhaglen Olive Tree ym Mhrifysgol y Ddinas, Llundain. Yn ystod ei gyrfa amrywiol bu ganddi swyddi ymchwil ym maes y cyfryngau a masnach yn Llundain, bu'n dysgu mewn prifysgolion yn yr Unol Daleithiau ac yn y DU, yn Bennaeth rhaglen y Dwyrain Canol yn Sefydliad Astudiaethau Amddiffyn y Gwasanaethau Unedig Brenhinol, ac yn Gyfarwyddwr Ymchwil ac yn Bennaeth rhaglen y Dwyrain Canol yn Chatham House. 'Britain and the Palestine Question 1914-2014' yw teitl ei Darlith Flynyddol DDMI. Cynhelir ei darlith yn Neuadd yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol am 6 o'r gloch ar y 27ain o Chwefror 2014.

# ‘Cyfres Affrica’ *The Davies Papers*

Carl Death

Mae DDMI wedi lansio ‘Cyfres Affrica’ *The Davies Papers*, cyfres o bapurau gwaith ar-lein a enwyd er anrhydedd i David Davies. Gall yr ymchwil a gyhoeddir yn y gyfres fod yn air olaf awdur ar bwnc, yn ddrafft o bapur, yn destun neu’n nodiadau sylweddol ar gyfer cyflwyniad, neu’n waith sy’n mynd rhagddo.

Dr Carl Death (carl.death@manchester.ac.uk) yw golygydd ‘Cyfres Affrica’, a’r bwriad yw cynnig llwyfan i hyrwyddo a lledaenu gwaith ar wleidyddiaeth Affrica, ac yn arbennig wleidyddiaeth a chanddi ddimensiwn rhyngwladol. Ymhlith y themâu a fyddai’n addas i’w cynnwys yng Nghyfres Affrica mae gwrthdaro a meithrin heddwch, datblygu, ymyrraeth ddyngarol, diplomyddiaeth, rhanbartholi, democratiaeth a’r gymdeithas sifil, diogelu cyflenwadau bwyd a dŵr, newid yn yr hinsawdd a’r amgylchedd, mudiadau cymdeithasol trawswladol, a sefydliadau rhyngwladol megis yr Undeb Affricanaidd, Banc Datblygu Affrica, y Llys Troseddol Rhyngwladol, Banc y Byd, diwygio Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig, cyrff rhanbarthol, ac ati. Mae croeso hefyd i bapurau mwy damcaniaethol a chysyniadol – yn ymdrin â materion megis rhyddid, cyfiawnder, grym, cydraddoldeb, hil, rhywedd, trais, gwybodaeth, crefydd ac yn y blaen – cyhyd ag y bo cysylltiad clir â materion yn ymwneud â gwleidyddiaeth Affrica â dimensiwn rhyngwladol. Nid rhestr gyflawn mo hon, a dylai’r rhai sydd â diddordeb mewn cyfrannu at y gyfres gysylltu â’r golygydd.

Er mai yn Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth y mae DDMI, croesewir syniadau a chyflwyniadau o bob rhan o gymuned yr ysgolheigion, ymarferwyr, myfyrwyr, gweithwyr cyrff anllywodraethol a’r cyhoedd sydd â diddordeb mewn materion Affricanaidd. Dylai cyfraniadau i *The Davies Papers* fod yn tua 4,000–9,000 o eiriau. Ond mae gennym hefyd ddiddordeb mewn deunydd ac eithrio papurau academaidd safonol (er enghraifft, adroddiadau cynadleddau, trafodaethau bord gron, cofiannau, papurau polisi, ac ati). Mae’r awdur yn cadw’r hawlfraint, ac ni fyddai dim i atal cyhoeddi’r gwaith yn rhywle arall. Golygydd ‘Cyfres Affrica’ fydd yn penderfynu’n derfynol ar unrhyw bapur – ei berthnasedd a’i ansawdd.

Ymhlith manteision cyhoeddi drwy’r Gyfres mae cyfle i hyrwyddo a lledaenu ‘gwaith sy’n mynd rhagddo’ neu ‘sbardunwyr syniadau’ yn gymharol gyflym, ar ffurf broffesiynol o safon uchel, i gynulleidfa eang o academyddion, ysgolheigion, gwneuthurwyr polisi a’r cyhoedd. Caiff y gyfres gyhoeddusrwydd drwy *Newyddlen* DDMI a rhestr ebost, ac arni dros 1000 o gyfeiriadau.

Dim ond drwy wefan DDMI y mae *The Davies Papers* ar gael. I weld y papurau, ewch i http://www.aber.ac.uk/en/interpol/research/research-centres-and-institutes/ddmi/publications/davies-papers/

# DDMI a’r cyfryngau cymdeithasol

Grant Dawson

Mae’r sefydliad wedi brasgamu i fyd y cyfryngau cymdeithasol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae dau reswm am hynny. Ar un llaw, mae’r Sefydliad bob amser yn chwilio am ffyrdd newydd o ledaenu gwybodaeth er mwyn estyn allan y tu hwnt i’w gynulleidfa graidd yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Ar y llaw arall, mae swyddogion DDMI yn sylweddoli ei bod yn bwysig cael gwybod am y technolegau newydd diweddaraf a allai hybu ei fandad.

Mae’r ddwy gynhadledd ryngwladol a gynhaliwyd yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol ym mis Medi 2013 ac a drefnwyd ac a ariannwyd yn rhannol gan DDMI (gweler yr erthyglau yn y *Newyddlen* hon i gael gwybod mwy) yn tystio i gysylltiad DDMI â’r cyfryngau cymdeithasol. Roedd y gynhadledd gyntaf, ‘International Relations Theory Today,’ yn nodedig o safbwynt y cyfryngau cymdeithasol am iddi ddefnyddio Skype. Yn ogystal â chyflwyniadau fideo ar Skype o Ecuador a’r Unol Daleithiau a ddangoswyd yn ‘fyw’ yn y Deyrnas Unedig, ar un achlysur cafwyd galwad fideo grŵp ar Skype lle gwnaeth (parhau ar y dudalen nesaf)

cyd-awduron o wahanol rannau o'r Unol Daleithiau sylwadau ac ateb cwestiynau wedyn. Cafwyd rhai mân broblemau ond at ei gilydd gweithiodd y dechnoleg yn dda.

Roedd yr ail gynhadledd, 'The Human Dimension of Climate Change: the Politics of Food and Water Security in Africa,' hyd yn oed yn fwy uchelgeisiol o ran defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Yn sgil awgrym a menter gan Adran Gyfathrebu Prifysgol Aberystwyth, crëwyd gwe-stori 'Storify' o'r gynhadledd gan gynnwys trydar, fideos, ffotograffau, a thestun ar un tudalen. Bu cynorthwywyr y gynhadledd yn trydar yn fyw o'r gynhadledd, a hynny mewn saith iaith (Iseldireg, Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Groeg, Portiwgaleg, a Chymraeg)! Cafwyd araith wedi'i recordio gan yr Arglwydd Malloch-Brown a sesiwn fideo holi ac ateb yn fyw ar Skype wedi hynny. Cafodd fideo o'r gynhadledd gyfan ei ffrydio'n fyw a'i darlledu ar wefan 'Food and Water Security – On-line Research Resource' (FWS-ore), yr helpodd DDMI i'w sefydlu (gweler rhifyn blaenorol y *Newyddlen* hon i gael gwybod mwy).

Mae DDMI yn bwriadu parhau i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn cysylltu â darpar gynulleidfaoedd ledled y byd. Mae cyfrif Twitter DDMI (@DDMIAber) newydd ei sefydlu. Wrth i gyfryngau cymdeithasol newydd ddod i'r amlwg a all fod o fudd i hyrwyddo gweithgareddau DDMI, bydd ei swyddogion yn manteisio arnynt ond heb darfu ar agweddau deallusol craidd cynhadledd neu ddigwyddiad.

## Y Diweddaraf am y Cydweithio rhwng DDMI a'r Ganolfan Gymreig Materion Rhyngwladol (WCIA)

Grant Dawson

Mae DDMI a'r Ganolfan Gymreig Materion Rhyngwladol (WCIA) yng Nghaerdydd wedi bod yn cydweithio ar brosiectau a digwyddiadau dros y blynyddoedd diwethaf. Maent wedi ceisio meithrin cysylltiad agosach oherwydd diddordeb y naill a'r llall yn hyrwyddo etifeddiaeth David Davies, yn arbennig o safbwynt heddwch a diogelwch. Mae swyddogion y ddau sefydliad wedi llunio cysylltiadau, ac mae swyddogion DDMI yn Ymddiriedolwyr i WCIA. Mae dau ddigwyddiad a gynhaliwyd yn ddiweddar, un gan y naill a'r llall o'r sefydliadau, yn esiamplau o'r cydweithio hwn sy'n datblygu. Cynhaliodd WCIA 'Question Time: The Responsibility to Protect and the Arab Spring' ar 5 Chwefror yn Siambr y Cyngor, Adeilad Morgannwg, Caerdydd. Dr Peter Sutch o Brifysgol Caerdydd oedd yn cadeirio'r digwyddiad, gyda Dirprwy Gyfarwyddwr DDMI Dr Grant Dawson yn cymryd rhan hefyd. Y gynhadledd ryngwladol 'The Human Dimensions of Climate Change: the Politics of Food and Water Security in Africa' oedd y digwyddiad arall. Noddodd WCIA dderbyniad cyn cinio'r gynhadledd, a bu Prif Weithredwr Cynorthwyol WCIA Susie Ventris-Field yn sôn am waith WCIA ac yn cymryd rhan ar baneli.

Mae DDMI a WCIA hefyd yn cydweithio, dan arweinyddiaeth WCIA, ar gais i Gronfa Treftadaeth y Loteri. Mae'r pwyslais ar 'Cymru dros Heddwch' a chanmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf yw'r achlysur. Mae'r prosiect yn ymwneud yn rhannol â hanes pobl a chymunedau yng Nghymru a fu'n gysylltiedig â heddwch, ac yn rhannol â dinasyddion heddiw'n canolbwyntio'u hegni ar faterion byd-eang ac yn dod yn rhyng-genedlaetholwyr 'newydd'. Yn ogystal â DDMI, mae Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth hefyd yn rhan o'r cais – roedd sefydlu'r adran yn 1919 yn uniongyrchol gysylltiedig â phrofiad David Davies o frwydro ar Ffrynt y Gorllewin.

## Myfyrio ar Bum Mlynedd yn DDMI

Grant Dawson

Mae'n debyg mai dyma *Newyddlen* olaf DDMI y caf y pleser o weithio arni'n rhan o'r tîm golygyddol. Ddiwedd mis Gorffennaf 2014, ar ôl pum mlynedd yn Ddirprwy Gyfarwyddwr ar DDMI, bwriadaf symud ymlaen ac ni fyddaf yn ymddangos ar y tudalennau hyn eto ond fel cyfrannwr gwadd. Rhoddaf isod grynodeb byr o'm cyfnod yn DDMI, a'r hyn y mae wedi'i olygu i mi. (Parhau ar y dudalen nesaf)

Pan dderbyniais y swydd, feddyliais i ddim y byddwn yn cael cynifer o gyfleoedd i dyfu a chyfrannu at yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn gyffredinol. Er mai swydd weinyddol a ariennir yn allanol yw swydd y 'Dirprwy Gyfarwyddwr', bûm yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd bwrdd yr Adran, yn cydlynu modiwl, ac yn gwneud gwaith ymchwil yn fy maes, sef cadw heddwch, ymyrraeth, rhyfeloedd cartref, a pholisi tramor Canada tuag at Affrica. Cyhoeddais erthyglau mewn cyfnodolion ysgolheigaidd a adolygir gan gymheiriaid. Mae'r bobl wych yr wyf wedi dod i gysylltiad â hwy – fel Ken Booth, Mike Foley, Andrew Linklater, a Campbell Craig – wedi bod yn ysbrydoliaeth i mi hefyd.

Mae trefnu darlithoedd arbennig ac amryw o ddigwyddiadau eraill yn rhan fawr o waith y Dirprwy Gyfarwyddwr. Ymhlith yr uchafbwyntiau mae'r symposiwm ar newid hinsawdd (2009), Darlith Flynyddol DDMI a roddwyd gan yr Athro Robert Jervis (2011), y Fforymau Davies poblogaidd (ers 2012), a'r ddwy gynhadledd ryngwladol ym mis Medi 2013. Ynghyd â'm gwaith fel Cynorthwyydd Golygyddol *International Relations*, cyfnodolyn y Sefydliad (sydd bellach yn berchen i SAGE), rwyf wedi dysgu llawer am ochr weithredol addysg uwch yn y DU ac wedi datblygu'n academydd proffesiynol mwy cyflawn o lawer.

Ni allaf ddirwyn yr erthygl hon i ben heb wneud rhai sylwadau personol, gan eu bod hefyd yn berthnasol i DDMI. Ym mis Gorffennaf 2009, ychydig ar ôl cyrraedd Aberystwyth, cyfarfûm â'r fenyw a fyddai'n dod yn wraig i mi. Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, ganed plentyn i ni – ac mae Galen Ferdinand Dawson bellach yn 8 mis oed wrth i mi ysgrifennu hyn o eiriau. Felly, bydd rhai o'r pethau pwysicaf yn fy mywyd yn gysylltiedig am byth â DDMI, yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, a thref fach ar lan y môr yng Nghymru – Aberystwyth.

Carwn ddiolch yn fawr iawn i Elusen Gwendolyn a Margaret Davies am eu cymorth ariannol hael i DDMI. Ariannodd yr Elusen fy swydd am bum mlynedd ac rwyf yn mawr obeithio y bydd yn parhau i roi cymorth i DDMI ymhell wedi i mi adael.

## Cynhadledd Disgyblaeth Cysylltiadau Rhyngwladol: 'International Relations Theory Today'

Katja Daniels

Bron i ugain mlynedd ar ôl cyhoeddi'r casgliad nodedig wedi'i olygu *International Relations Theory Today*, daeth ysgolheigion blaenllaw ym maes Cysylltiadau Rhyngwladol ynghyd yn Aberystwyth i bwyso a mesur llwybr y ddisgyblaeth ers hynny, ac i ba gyfeiriad y dylai fynd yn y dyfodol.

Llwyddodd y cyfranogwyr, a oedd yn cynrychioli amrywiaeth y fframweithiau damcaniaethol a'r pynciau empirig sy'n nodweddu'r ddisgyblaeth, i gyfiawnhau ymhen dim bwynt Ken Booth, cyd-drefnydd y gynhadledd gyda Toni Erskine, fod hon yn 'ddigyblaeth ddadleugar.' Er hynny, wrth i'r drafodaeth ddatblygu, daeth yn amlwg fod y cyfranogwyr yn rhoi sylw gofalus i waith y naill a'r llall a chafodd pob carreg ddamcaniaethol ei throi. Ymhlith y trafodaethau mwy penodol, roedd o leiaf ddau gwestiwn ehangach yn amlwg drwy gydol y gynhadledd. Cynnwys y ddisgyblaeth oedd y maes cyntaf y bu anghytuno yn ei gylch. Yn groes i 'ddiddordeb traddodiadol Cysylltiadau Rhyngwladol yn system y wladwriaeth', roedd Neta Crawford yn ei phapur yn dychmygu cwricwlwm i raddedigion yn 2114 a fyddai'n cofleidio'n benodol agweddau rhyngddisgyblaethol, safbwynt hirdymor ac astudio 'gwleidyddiaeth fyd-eang', a phwysleisiodd Rorden Wilkinson bwysigrwydd 'tynnu gwasgod gaeth agweddau damcaniaethol hen ffasiwn' mewn byd 'ar ôl sofraniaeth'. Roedd yr ail thema gyson yn ymwneud â theori. Yn eu haraith groesawu, dadleuodd Ken Booth a Toni Erskine na ellir cyhuddo'r ddisgyblaeth mwyach o fod yn 'ddamcaniaethol gyntefig' (sef un farn a leisiwyd yn y golygiad cyntaf).

Yn wir, y pwnc trafod mwyaf oedd a yw'r ddisgyblaeth wedi mynd yn rhy (Parhau ar y dudalen nesaf)

haniaethol ac wedi ymbellhau oddi wrth ymarfer. Heriodd Christine Sylvester duedd y ddisgyblaeth i wobrwyo'r rhai sy'n damcaniaethu'n haniaethol ac 'yn gyson yn diystyru pobl bob dydd yn eu hystyriaethau'; dywedodd Chris Brown mai diben theori Cysylltiadau Rhyngwladol yw gwella ymarfer Cysylltiadau Rhyngwladol; a dadleuodd Oran Young o blaid rhoi sylw ysgolheigaidd i atebion (yn ei achos ef i heriau gweithredu ar y cyd yr Anthroposen) er mwyn osgoi sefyllfa lle mae ymarferwyr yn llunio atebion anneniadol yn y fan a'r lle.

Mewn Rhifyn Arbennig o'r *European Journal of International Relations* yn ddiweddar gresynwyd at y diffyg cyswllt rhwng gwahanol ymagweddau damcaniaethol, ond ar ôl tridiau o ddadlau brwd mae'n sicr y bydd golygiad newydd *International Relations Theory Today* yn gam pwysig i'r cyfeiriad iawn.

## Cynhadledd 'Human Dimensions of Climate Change: the Politics of Food and Water Security in Africa'

Justa Hopma

Rhwng 18–20 Medi, cynhaliwyd y gynhadledd ryngddisgyblaethol 'Human Dimensions of Climate Change: the Politics of Food and Water Security in Africa' ym Mhrifysgol Aberystwyth, wedi'i threfnu a'i noddi'n rhannol gan DDMI. C3W (Consortiwm Newid Hinsawdd Cymru) a Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ym Mhrifysgol Aberystwyth oedd y prif noddwyr eraill. Cafwyd sawl digwyddiad gwahanol yn ystod y gynhadledd: o gynhadledd fideo rhwng Efrog newydd ac Aberystwyth, i nifer o baneli academaidd o safon uchel, i daith o amgylch labordai bridio planhigion o'r radd flaenaf yn IBERS. Daeth saith deg o bobl i'r gynhadledd, gan gynnwys academyddion, diplomyddion, gwneuthurwyr polisi, cynrychiolwyr cyrff anllywodraethol, swyddogion llywodraeth a myfyrwyr o Affrica, Ewrop, a Gogledd America. Cafodd yr holl sesiynau eu darlledu'n fyw ar wefan 'Food and Water Security – Online Research Resource' (FWS-ore) Prifysgol Aberystwyth a bu tri chynorthwyydd y gynhadledd yn brysur yn rhoi'r newyddion diweddaraf i ddilynwyr Prifysgol Aberystwyth ar Twitter.

Un o'r uchafbwyntiau i mi oedd y panel ar ddiogelu cyflenwadau dŵr lle rhoddodd Inga Jacobs (Comisiwn Ymchwil Dŵr De Affrica), Daniel Yeo (Sefydliad Twf Gwyrdd Byd-eang Llywodraeth Ethiopia, Addis Ababa), a Larry Swatuk (Prifysgol Waterloo, Canada) eu barn am y ffordd y caiff polisi diogelu cyflenwadau dŵr ei ffurfio a pham y mae angen i ni ailfeddwl yn ei gylch. Gallai cwestiwn Swatuk 'Pam ydym ni'n meddwl am ddŵr yn y ffordd y meddyliwn amdano?' yn sicr fod yn gwestiwn arweiniol i baneli eraill hefyd. Pam ydym ni'n meddwl am amaethyddiaeth a diogelwch yn y ffordd y meddyliwn amdanynt?

Roedd dimensiwn rhyngwladol cryf i'r gynhadledd, ac roedd yno gynrychiolwyr o nifer fawr o wledydd – rhai a chanddynt brofiad helaeth o lunio polisïau ac arweinyddiaeth ryngwladol. Bu'r Arglwydd Malloch-Brown yn sôn am weithdrefnau'r Cenhedloedd Unedig, a rhoddodd cyn Lywydd yr Undeb Affricanaidd Jean Ping ei brif araith ar effaith ddynol newid yn yr hinsawdd ar y cyfandir sydd wedi 'cyfrannu leiaf at gynhesu byd-eang'.

At ei gilydd, llwyddodd y gynhadledd i wireddu ei nod o ddod ag arbenigwyr ynghyd o amryw o wahanol gefndiroedd; roedd yn esiampl felly o'r mathau o brosiectau cyffrous ar y cyd y gall DDMI helpu i'w trefnu. Ond dangosodd y trafodaethau brwd nad yw canfod meysydd ymchwil cyffredin yn ddigon ynddo'i hun. Wrth gwrs, dim ond hyn a hyn y gellir ei gyflawni mewn cynhadledd dridiau. Er hynny, os yw'n wir – yng ngeiriau Jean Ping – fod angen i bawb fod yn rhan o hyn er mwyn ymateb yn ddigonol i'r heriau aruthrol ynglŷn â diogelu cyflenwadau bwyd a dŵr, mae'r broses ar gyfer gwireddu a *chynnal* y cyfranogiad hwnnw'n hynod bwysig. At ddibenion y gynhadledd hon, llwyddodd DDMI i ddod â nifer o garfanau allweddol ynghyd. Yr her yn awr yw meddwl am sut y gall y sgwrs honno barhau. Yn hynny o beth, edrychaf ymlaen at ail gynhadledd ryngddisgyblaethol ar wleidyddiaeth diogelu cyflenwadau bwyd a dŵr – y tro hwn *yn* Affrica.

# Proffil Staff: Dr Kamila Stullerova

Kamila Stullerova

Mae Kamila Stullerova, Darlithydd Gwleidyddiaeth Ryngwladol, yn gweithio yn Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Aberystwyth ers 2009. Daeth i DDMI yn Aelod Cyswllt yn 2012. Mae diddordeb ymchwil Kamila yn y gorgyffwrdd rhwng Theori Cysylltiadau Rhyngwladol, Theori Wleidyddol ac Astudiaethau Diogelwch. Ym mis Mawrth 2013 trefnodd (ynghyd a Jan Ruzicka) gynhadledd ryngwladol dan y teitl 'Emancipatory Realism: Ken Booth and the Discipline of International Relations', a oedd yn edrych o'r newydd ar ysgolheictod Ken Booth ac yn archwilio'i effaith ar ddatblygiadau cyfredol ym meysydd Cysylltiadau Rhyngwladol ac Astudiaethau Diogelwch. Fe'i cynhaliwyd hefyd i nodi ei ben-blwydd yn 70. Cyflwynwyd papurau gan ysgolheigion o Awstralia, Canada, De Affrica, a Thwrci, yn ogystal ag o'r DU. Ar hyn o bryd mae Kamila (ar y cyd â Tim Dunne) yn golygu llyfr, *Security and Emancipation*, yn deillio o'r gynhadledd.

A hithau'n ddamcaniaethwr beirniadol ym maes diogelwch, mae Dr Stullerova yn ymddiddori yn nimensiynau normadol diogelwch a'i berthynas â gwerthoedd gwleidyddol eraill. Un o ganlyniadau'r ymchwiliad hwn yw prosiect yn archwilio'r cysylltiad rhwng hawliau dynol a diogelwch o safbwynt diogelu cyflenwadau bwyd a dŵr. Yn sgil ei herthygl ddamcaniaethol yn ddiweddar dan y teitl 'Rethinking Human Rights', mae bellach yn archwilio sut y gallai cysyniad hawliau dynol atal rhai o dueddiadau dadwleidyddoli'r agenda diogelu cyflenwadau bwyd a dŵr, ac ar yr un pryd ategu'r ymrwymiad i sicrhau maeth sylfaenol i bawb. Cyhoeddir y prosiect rhyngwladol, rhyngddisgyblaethol hwn ar y cyd mewn rhifyn dwbl arbennig o *The International Journal of Human Rights*.

Mae Kamila yn aelod o rwydwaith 'Critical Theory Meets Classical Realism', prosiect ymchwil rhyngwladol tair blynedd a ariennir gan Ymddiriedolaeth Leverhulme. Yn rhan o'r prosiect hwn, mae'n edrych ar sut y gellir defnyddio realaeth wleidyddol yr ugeinfed ganrif i ymdrin â heriau cyfoes gwleidyddiaeth ryngwladol, ac yn arbennig sut y gall nodi ac ymdrin â materion sy'n dod i'r amlwg a gwneud hynny'n foesegol. Mae'n cyd-drefnu gweithgor Ymchwil Gyfoes ar Theori Wleidyddol Ryngwladol (CRIPT) Cymdeithas Astudiaethau Rhyngwladol Prydain yn ogystal â'r Grŵp ar Theori Ryngwladol (GRIT), grŵp ymchwil yn Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Aberystwyth. Mae Dr Stullerova yn dysgu modiwlau theori wleidyddol, moeseg ryngwladol, theori cysylltiadau rhyngwladol ac astudiaethau diogelwch beirniadol, ac mae'n goruchwylio traethodau PhD yn y meysydd hyn. Mae'n llawn cyffro ynghylch bod yn rhan o dîm DDMI!

# Uchafbwyntiau gwaith swyddogion ac aelodau cyswllt DDMI dros y flwyddyn a aeth heibio

Grant Dawson

Cyhoeddiadau:

**Ken Booth**, 'Foreword' yn Laura J. Shepherd (gol), *Critical Approaches to Security: An Introduction to theories and methods* (Routledge: 2013): xv-xvii.

**Ken Booth**, 'Human Development in a Statist World', *International Journal of Social Economics*, 40(7), 2013: 633-47.

**Ian Clark**, *The Vulnerable in International Society*, (Gwasg Prifsygol Rhydychen 2013).

**Grant Dawson**, 'Player, partner and friend: Canada's Africa policy since 1945', *International Politics* 50(3), 2013: 412–434.

**Carl Death**, 'Governmentality at the limits of the international: African politics and Foucauldian theory', *Review of International Studies* 39(3), 2013: 763-787.

**Andrew Linklater**, 'The Global Civilizing Role of Cosmopolitanism', yn Gerard Delanty (gol), *The Routledge Handbook of Cosmopolitan Studies* (Routledge, 2012): 60-71.

Campbell Craig a **Jan Ruzicka**, 'The Nonproliferation Complex', *Ethics & International Affairs*, 27(3), 2013: 329-348.

**Kamila Stullerova**, 'In Defence of Human Rights,' *International Politics* 50(5), 2013: 686–705.

Darlithoedd:

Bu **Ken Booth** yn annerch myfyrwyr Meistr yn Ysgol Astudiaethau Uwch Johns Hopkins, Prifysgol Bologna, yr Eidal, ar 'Realism, Critical Theory, and Global Security' (Mawrth 2013).

Rhoddodd **Ken Booth** ddarlith i gyfadran gwyddorau cymdeithasol Prifysgol Coimbra ym Mhortiwgal ar 'IR: why it matters and what we should do' (Ebrill 2013).

Rhoddodd **Ian Clark** gyflwyniadau ar 'China as a Great Power' ym Mhrifysgol Tsinghua, Academi Gwyddorau Cymdeithasol Tsieina, a'r Brifysgol Materion Tramor – i gyd yn Beijing, Tsieina (Mehefin 2013).

Cymerodd **Grant Dawson** ran mewn trafodaeth rhwng panel o saith a gynhaliwyd gan y Ganolfan Gymreig Materion Rhyngwladol dan y teitl "Question Time: The 'Responsibility to Protect' and the Arab Spring," Siambr y Cyngor, Adeilad Morgannwg, Caerdydd (Chwefror 2013).

Rhoddodd **Carl Death** bapur, 'Green states in Africa: Environmental change and international politics', ym Mhrifysgol Stellenbosch, De Affrica (Chwefror 2013).

Trefnodd **Kamila Stullerova** a **Jan Ruzicka** gynhadledd ryngwladol ar y cyd dan y teitl: 'Emancipatory Realism: Ken Booth and the Discipline of International Relations', yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Prifysgol Aberystwyth (Mawrth 2013).

## Digwyddiadau a darlithoedd y sefydliad yn 2012–13

Grant Dawson

Darlithoedd Blynyddol DDMI:

Thomas O. Melia (Dirprwy Ysgrifennydd Gwladol Cynorthwyol, Adran Wladol yr Unol Daleithiau), 'Is it realist to think we can advance democracy and human rights?' (19 Mawrth 2013).

Yr Athro Norman Davies (Prifysgol Jagiellonian a Chymrawd er Anrhydedd o Goleg St Antony, Prifysgol Rhydychen), 'Is the European Union a Vanishing Kingdom?' (1 Tachwedd 2012).

Cynadleddau a Gweithdai:

Cynhadledd Ryngwladol: 'The Human Dimensions of Climate Change: the Politics of Food and Water Security in Africa' (18–20 Medi 2013).

Cynhadledd Ryngwladol: 'International Relations Theory Today' (11–13 Medi 2013).

Cynhaliodd Grŵp Ymchwil Gwleidyddiaeth Ryngwladol DDMI weithdy dan y teitl 'Can we trust anybody in international politics?' (24 Hydref 2012). Yn cymryd rhan roedd yr Athro Nicholas J. Wheeler (Prifysgol Birmingham a chyn Gyfarwyddwr, DDMI), Dr Vincent C. Keating (Prifysgol Durham), a Dr Jan Ruzicka (Prifysgol Aberystwyth).

Fforymau Davies:

5ed Fforwm Davies ar 'Al-Qaeda in Mali? Hostage-taking in Algeria? Insecurity in Libya? Assassination in Tunisia? Human rights abuses in Syria? What is to be done?' Yn cymryd rhan roedd yr Athro Martin Alexander a Dr Jan Ruzicka, Dr Madeline Carr a Dr Grant Dawson (19 Chwefror 2013).

4ydd Fforwm Davies ar 'The 2012 U.S. Presidential Election'. Yn cymryd rhan roedd Aidan Condron, yr Athro Campbell Craig, a Dr Andrew Priest. Y cwestiwn y buont yn ei drafod oedd: 'What are the implications of the election for U.S. politics and the world?' (6 Tachwedd 2012).

Darlithoedd gwadd:

– Ian Sinclair (awdur ac ymgyrchydd heddwch), 'The unknown achievements of the 15 February 2003 anti-war march,' yn seiliedig ar ei lyfr yn 2013, *The march that shook Blair: an oral history of 15 February 2003* (19 Ebrill 2013).

– Georgina Holmes (Coleg King's Llundain), 'Feminist theorising of war and genocide in the Great Lakes region of Africa' (5 Chwefror 2013).

– Christoph Ploss (Prifysgol Hamburg), 'Lord Davies, The New Commonwealth Society and its German section' (7 Tachwedd 2012).

Neges y Cyfarwyddwr yn parhau o dudalen 1…

yn ei wneud).

Yn ogystal â'r pedwar prosiect hwn sy'n mynd rhagddynt, ym mis Medi 2013 chwaraeodd DDMI rôl ganolog o ran sefydlu, trefnu, codi arian a rhedeg dwy gynhadledd ryngwladol fawr. Nid wyf yn meddwl ei bod yn ormod dweud mai dyma'r cynadleddau uchaf eu proffil a noddwyd erioed gan DDMI yn ei holl hanes. Ceir disgrifiadau byr gan fyfyrwyr a fu'n gwirfoddoli yn y cynadleddau yn y Newyddlen hon.

Teitl y gynhadledd gyntaf a gynhaliwyd oedd 'International Relations Theory Today', ac fe'i trefnwyd ar y cyd gan yr Athro Toni Erskine a minnau. Daeth criw nodedig iawn o ddamcaniaethwyr Cysylltiadau Rhyngwladol ynghyd yn Aberystwyth i drafod drafftiau o benodau ar gyfer ail olygiad y llyfr International Relations Theory Today. Cyhoeddwyd y golygiad cyntaf yn 1995, a daeth yn ffynhonnell gydnabyddedig i fyfyrwyr lefel uwch ledled y byd. Gweithdy i awduron oedd y cyfarfod yn ei hanfod, ond cymerodd myfyrwyr uwchraddedig yr Adran ran ynddo, a bu aelodau o'r staff wrthi'n trafod yn ddygn ac yn gadarnhaol – a chawsant ddiolch gan y rhai a oedd yn cyflwyno papurau a chan y trefnwyr. Bwriedir cyhoeddi ail olygiad y llyfr, a gyhoeddir gan Polity, ddiwedd 2014.

'The Human Dimensions of Climate Change: the Politics of Food and Water Security in Africa' oedd teitl yr ail gynhadledd. Trefnwyd y gynhadledd hon ar y cyd gan Syr Emyr Jones Parry, Llywydd Prifysgol Aberystwyth, Dr Carl Death, bellach ym Mhrifysgol Manceinion, a minnau. Rhoddwyd y prif anerchiad gan Jean Ping, cyn Gadeirydd yr Undeb Affricanaidd, ac ymhlith y rhai a gymerodd ran roedd swyddogion, gwleidyddion, ymgyrchwyr ac ymchwilwyr o wahanol rannau o Affrica yn ogystal ag Ewrop a Chanada. Prif amcanion y gynhadledd oedd hyrwyddo dealltwriaeth (Parhau ar y dudalen nesaf)

o’r gydberthynas, ar wahanol lefelau, rhwng deinameg ansicrwydd, newid yn yr hinsawdd, a gwleidyddiaeth yn Affrica; creu rhwydwaith o ysgolheigion, ymgyrchwyr a swyddogion a chanddynt ddiddordeb; ac archwilio’r heriau sy’n wynebu ymagweddau rhyngddisgyblaethol at ddiogelu cyflenwadau bwyd a dŵr yn gyffredinol.  Mae’n debyg y bydd cryn dipyn o gynnyrch yn deillio o’r gynhadledd, ac roedd hynny i’w weld yn amlwg ym mwrlwm y cyfranogwyr wrth iddynt adael y gynhadledd.  Bydd ‘Cyfres Affrica’ gyntaf The Davies Papers  yn crynhoi’r gynhadledd – ei themâu, ei llwyddiannau, ei methiannau – o wahanol safbwyntiau.  Os oes gennych ddiddordeb, bydd ar wefan DDMI tua diwedd 2013.

Mae angen diolch i sawl un am helpu i gynnal y cynadleddau hyn yn llwyddiannus.  Am gymorth ariannol i’r gynhadledd ‘International Relations Theory Today’, carwn ddiolch i’r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol ac i Gronfa Gynadleddau Prifysgol Aberystwyth.  O ran y gynhadledd ar ‘The Human Dimensions of Climate Change: the Politics of Food and Water Security in Africa’ carwn ddiolch i C3W (Consortiwm Newid Hinsawdd Cymru), i IBERS (Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig), ac i’r Adran unwaith eto.  Am helpu i drefnu’r digwyddiadau, o ran y gynhadledd ‘International Relations Theory Today’ hoffwn gydnabod cymorth staff cynnal yr Adran, ac yn arbennig Elaine Lowe, Rachel Owen a Gwenan Creunant; a chymorth gweinyddol Kimberley Layton yn Awstralia.  Trefnwyd cynhadledd ‘The Politics of Food and Water Security in Africa’ i raddau helaeth gan swyddogion DDMI, Syr Emyr Jones Parry a Carl Death, gyda chyngor defnyddiol iawn fel arfer gan staff cynnal yr Adran.   Yn y ddwy gynhadledd cafodd Grant Dawson gymorth blaen tŷ o’r radd flaenaf gan wirfoddolwyr o blith y myfyrwyr (Katja Daniels a Pola Zafra yn y gynhadledd gyntaf, a Justa Hopma, Désirée Poets, a Florian Mikal yn yr ail).  Mae llwyddiant mentrau fel y rhain, y mae llawer o bobl o wahanol wledydd yn cymryd rhan ynddynt, yn dibynnu bob amser ar waith tîm da, a gwasanaethwyd DDMI yn dda gan ein timau cymorth.

Byddai’n esgeulus peidio â sôn yn benodol, yn fy neges olaf fel Cyfarwyddwr, am Ddirprwy Gyfarwyddwr DDMI, Dr Grant Dawson.  Yn 2009 mentrodd Grant o Ganada i gymryd y swydd ran amser hon.  O’r cychwyn cyntaf mae Grant wedi bod yn frwd ei gefnogaeth i ethos DDMI, a bu’r berthynas bersonol rhyngddo a minnau’n un wresog.  Un o bleserau mawr y berthynas honno oedd iddo alw arnaf, bum munud cyn i’r gerddoriaeth ddechrau, i fod yn was priodas iddo – roedd y gwas go iawn wedi mynd ar goll wrth deithio o Lerpwl i Aberystwyth.

Er fy mod wedi rhoi’r gorau i swydd y Cyfarwyddwr, ni fyddaf yn colli cysylltiad â DDMI: i’r gwrthwyneb.  Gofynnwyd i mi fod yn Llywydd, rôl a aeth yn angof yn y blynyddoedd ers i DDMI drosglwyddo i Aberystwyth o Lundain.  Byddaf yn fwy o lysgennad yn y rôl hon, yn hytrach nag yn ymwneud yn gyson â chynnal seminarau a gweithgareddau eraill (er y byddaf yn cymryd rhan yn y rheiny).  O safbwynt y rôl lysgenhadol hon, mae cynlluniau ar y gweill y flwyddyn nesaf ar gyfer prosiectau ym Malaysia, Canada, De Affrica a Thwrci, yn ogystal ag yn y DU, ac ym mhob un o’r rhain byddaf yn chwifio baner DDMI.

I gloi, mae’n bleser gennyf ddymuno’n dda iawn i Jan yn swydd y Cyfarwyddwr.  Rwyf yn ffyddiog y bydd prosiect unigryw’r DDMI, gyda medrau trefnu Jan, ei weledigaeth a’i sgiliau egnïol rhagorol, yn parhau i ffynnu, ac yn parhau i anelu’n uchel o ran ei ymrwymiad i ddangos ym mha fodd y mae cysylltiadau rhyngwladol yn bwysig ym mywyd y byd ar gynifer o wahanol lefelau.

**Sefydliad Astudiaethau Rhyngwladol David Davies**
Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol
Prifysgol Aberystwyth SY23 3FE
**Gwefan -** www.aber.ac.uk/ddmi **Trydar -** @DDMIAber